

## CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

### **C162 CYHOEDDIAD –**

Dechreuodd y Dirprwy Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

### **C163 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –**

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorwyr L. Burnett a M.R. Wilson.

### **C164 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

### **C165 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### **C166 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2024 ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 10 Hydref, 2024. Cafwyd trafodaeth dda yn y cyfarfod a diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y sylwadau a oedd wedi'u trosglwyddo i Cabinet i'w ystyried.

## PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r sylwadau a'r materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2024 a diolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu rhan yn y broses o lunio'r Hunanasesiad Blynyddol a sicrhau ei gadernid. Byddai'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol drafft terfynol yn awr yn mynd ymlaen i'r Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo ddechrau mis Rhagfyr.

(2) BOD:

- Byddai perthnasedd polau cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas ag ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol yn parhau i gael ei fonitro gan Swyddogion;
- Byddai'r defnydd o dablau cyllideb i egluro sut y gwariodd y Cyngor ei arian yn cael cyhoedduswydd ehangach;
- Roedd fersiwn gryno mewn iaith glir o'r ddogfen wedi'i chynhyrchu ar gyfer aelodau'r cyhoedd a byddai'n cael cyhoedduswydd ehangach.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

### **C167           DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2024 a diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y drafodaeth gadarn ac am y sylwadau a oedd wedi'u trosglwyddo i'r Cabinet i'w hystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod yr adroddiad yn cyfeirio at sawl risg gorfforaethol o fewn y Portffolio Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, gan gynnwys y galw am ofal cymdeithasol, hyfywedd ariannol gwasanaethau, cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol iawn a newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a allai fod yn broblem i ddarparwyr gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd roedd swyddogion wrthi'n datblygu achos busnes yn ymwneud â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) i fynd at Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Roedd y mater o ddiogelu wedi cael ei gategori risg ei hun fel Sefydliad gan ei fod yn cael ei gydnabod fel cyfrifoldeb corfforaethol. Bu cryn drafod yn y Pwyllgor o risgiau ar draws y Cyngor a ystyriwyd hefyd gan Swyddogion ac Uwch Dîm Arwain yn yr adroddiad a'u lliniaru cyn belled ag oedd yn bosibl.

## PENDERFYNWYD –

(1) BOD y sylwadau a'r materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024 yn cael ei nodi.

(2) Y

- Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi ynghylch a ddylid gwahanu caffael o'r Risg Adnoddau Ariannol a bod yn risg annibynnol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- Byddai ystyriaeth yn cael ei roi ynghylch a oedd sgorio'r Risg Adnoddau Ariannol yn cyfiawnhau sgôr risg uwch;
- Roedd Risg System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a'r Risg o Newid Hinsawdd a Risg Argyfwng Natur yn cael eu hystyried ar frys gan y Cabinet a Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor.

#### Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

### **C168 CYNLLUN TREFNIADAU DERBYN CYDLYNOL 2027-2028 (ACG) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar Gynllun Trefniadau Derbyn Cydlynol yr Awdurdod Lleol ar gyfer blwyddyn academaidd 2027-2028.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd fod cais yn cael ei wneud i ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor gan fod yn rhaid i'r trefniadau newydd fod yn eu lle erbyn 1 Ionawr, 2025, ddwy flynedd cyn y flwyddyn academaidd wirioneddol y trefniadau derbyn, ac i ganiatáu i'r broses ymgynghori ddechrau o 8 Tachwedd 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

#### **PENDERFYNWYD –**

(1) CYMERADWYO'r ymgynghoriad sydd ei angen i gytuno ar Gynllun Trefniadau Derbyn Cydlynol Bro Morgannwg (Atodiad A i'r adroddiad) ar gyfer pob ysgol a gynhelir ym Mro Morgannwg ar gyfer blwyddyn academaidd 2027 – 2028.

(2) CYTUNO i ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn galluogi'r broses ymgynghori ar y Cynllun Trefniadau Derbyn Cydlynol 2027-2028 i ddechrau o 8 Tachwedd, 2024.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran Rheoliadau Addysg (Cydgysylltu Trefniadau Derbyn i Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(2) Galluogi'r cyfnod ymgynghori i ddigwydd o 8 Tachwedd i 29 Tachwedd, 2024.